Cyfres Llanbedr | Tachwedd, 1929. | Cyf. 29. Rhif 11.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y Golygydd. | Y Parch. T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Darlun—Capel Bwlchyfadfa.
Gweinidogion Bwlchyfadfa.
Hanes Capeli'r Enwad—Bwlchyfadfa.
Trem ar Bethau.
Confessio Fidei.
Y Cyrddau Chwarterol.
Change.
Priodasau. Marwgofion.
Maes Llafur 1929—1930.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN AWR YN BAROD.

Gyrrwch archeb yn union am

Y LLYFR EMYNAU NEWYDD—

PERLAU MOLIANT

(SOLFFA)

CASGLIAD O EMYNAU A THONAU AT WASANAETH EGLWYSI UNDODAIDD CYMRU.

Prisiau :—

Lledr Hanner Rhwym, 4/6. | Lledr Llawn Rhwym, 5/6.

Lledr Morocco ac India Paper, 7/-.

Cludiad copiau unigol, 6ch. yn ychwanegol.

Derbynir archebion (*gyda blaendal*) oddiwrth Eglwysi a phersonau unigol yn awr. Anfoner at—

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

CHANNING HOUSE SCHOOL

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Public School for Girls.

For Particulars apply to THE HEAD MISTRESS.

T. E. Jones. & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYFRES LLANBEDR. TACHWEDD, 1929. CYF. XXIX. RHIF 11.

CAPEL BWLCHYFADFA.

Rhestr o Weinidogion Bwlchyfadfa.

John Jones 1812—1814.

David Davies 1814—1820.

William Rees (1814)—1829.

John Davies 1820—1858.

David Evans, B.A.—(1853).

Peter Joseph 1853—1857.

W. Marles Thomas (Supply) 1858—1859.

William Marles Thomas, M.A. 1860—1879.

William James, B.A. 1879—1888.

William Jenkin Davies 1889—1896.

Evan Oliver Jenkins 1902—1929—

Hanes Capeli'r Enwad yn Sir Aberteifi.

XII.—BWLCHYFADFA.

MERCH y Llwyn ydyw Bwlchyfadfa er iddi fod fel geneth ieuanc braidd yn ystyfnig ond edifarhaodd a chadwodd gyda ei mam byth oddiar hyny. Yn aml wrth geisio olrhain hanes dechrau unrhyw gynulleidfa fe geir rhyw gyfnod niwlog gyda chynnen a rhwygo fel ei brif nodwedd. Ar un olwg nid ymddengys cynnen a rhwyg fel dechrau da i eglwys yn proffesu Efengyl Cariad ac yn dwyn enw Tywysog Tangnefedd. Ar y llaw arall fe welir fod yn rhaid rhwygo ac ymrannu a thorri'n rhydd a thraddodiad a hen syniadau cyn dechrau o gynulleidfa i wau ei phrofiad ag edafedd newydd. Ni wn nad yw hynyna yn ddechrau gweddol gyffredin i lawer eglwys. Nid felly yw yn hanes Eglwys Bwlchyfadfa. Fe geir yn wir gynnen a rhwygo ond nid oherwydd gwahaniaeth barn. Hyd ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg nid oedd Eglwys yn ardal Bwlchyfadfa ag eithrio hen Eglwys y Bedyddwyr yng Nglandŵr a'r cyffiniau. Yr oedd y wlad yng ngafael yr Eglwys Wladol yr adeg honno onid oedd yma aelodau ar wasgar yn perthyn i eglwysi anghydffurfiol fel y Llwyn neu Horeb neu Benrhiwgaled.

Beth bynnag am hyn yn 1811 daeth y Parch. John Jones, mab y Parch. Jonathan Jones, Rhydybont yn gyd-weinidog a'r Parch. David Davis yn y Llwyn. Yr oedd y Parch. Timothy Davies wedi ymadael yn 1810 a gwyddom fod y Parch. John Jones yn weinidog yn Aberdâr ac yn derbyn ei dâl olaf yn yr Hen Dŷ Cwrdd ar y 4 o Fai, 1811.

Ni fu yma ond am ryw flwyddyn neu ragor. Digwyddodd rhywbeth a gorfu iddo gilio o wasanaethu yn y Llwyn.

Ni fu neb heb rai ffrindiau a phan enciliodd Jones, cydymdeimlodd rhywrai ag ef gan rwygo'r Llwyn eilwaith ymhen rhyw ddeng mlynedd.

Y mae'n anodd bod yn sicr ond dywed y Parch. T. J. Griffiths (Tau Gimel) yng Nghofiant Davis Castellhywel,—

"Ym Mawrth, 1814, y darfu iddo (Dafis) oherwydd fod ei gydweinidog Mr. J. Jones yn cael ei gyhuddo o ymddygiad

anfoesol ac anweddaidd iawn, (yr hyn nid oedd yn cael ei gredu gan bawb o'r cynulleidfaoedd) gael ei ofidio yn chwerw dost yn gymaint, fel ag y penderfynodd i roddi i fynu y weinidogaeth yn y llefydd dan ei ofal. * * * Cyhuddwyd Mr. Dafis o greulondeb tuag at Mr. J. Jones, a bod hyny yn codi oddiar ormod sel dros ei bwnc ei hun (canys yr oeddynt yn gwahaniaethu mewn llafar, os nad mewn meddwl, y naill oddiwrth y llall.)"

Fe welir oddiwrth yr uchod fod yna ryw gyhuddiad pendant yn erbyn cymeriad moesol y Parch. J. Jones ac nid yw'n anodd ei ddyfalu. Tan gysgod y cwmwl hwn, ymneilltuodd y Parch. John Jones a'i ffrindiau o'r Llwyn. Hwyrach fod y ffrindiau o ardal y Bwlch, pwy wyr bellach. Beth bynnag yr oedd yma aelodau o Benrhiwgaled yn ardal Talgarreg yn ei gweld ymhell hwyrach i gerdded bob Sul yno. O'r hyn leiaf fe geir ffrindiau y Parch. John Jones ac aelodau Penrhiwgaled yn ymuno er codi Capel Bwlchyfadfa rywbryd tua 1813. Fe welir felly mai capel shiprys ydoedd ar y dechrau a chynorthwywyd y Parch. John Jones gan "leygwyr yr ardal, y pennaf o'r rhai oedd David Evans, Gwardafolog."

Hwyrach mai yma y ceir yr esboniad ar y Bwlch yn cadw'n *drue* i egwyddorion y Llwyn ac wedi ymadael o Jones yn mynd yn ol dan weinidogaeth Davis Castellhywel. Ni ddisgwylid sefydlogrwydd yma ac nid hawdd oedd i'r pleidiau doddi i'w gilydd a hawl gan y ddwy blaid ar y pulpud bob yn ail Sul.

Ni fu'r uniad ond tros amser byr oherwydd ceir fod y blaid ryddfrydig ei syniadau yn cerdded at Ariaeth ac Undodiaeth nes gwylltu y blaid geidwadol. Tybiodd hithau y buasai'n well iddi ymadael rhag iddi gael ei llygru gan yr heresi. Gan fod ganddi hawl i'r pulpud ddau Sul y mis ac wedi cynorthwyo gyda chodi'r Capel newydd, gwerthodd ei hawl i'r blaid Arminaidd am £35.

Gyda'r arian hyn y dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu Capel Pisgah gan yr Annibynwyr a ymadawodd o'r Bwlch.

Yr oedd John Jones wedi gorfod ymadael a'r Bwlch yn 1814 a digon tebig fod yr hen si a'r hen bechod yn marw'n galed, a thua chanol Haf, 1814, fe geir cynulleidfa'r Bwlch yn mynd tan weinidogaeth Davis a'i gydweinidogion. Ni wn i ble yr aeth Jones wedi peidio a gwasanaethu yn y Bwlch. Dywedir yn Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru (Rees a Thomas, Cyf., iv, td. 204) nad oedd yn dderbyniol gan yr Annibynwyr oherwydd ei syniadau Arminaidd a'i gymeriad moesol amheus. Bu dro heb ofal eglwys ond cafodd ddaear gan fab Jenkin Jones i godi Capel Carmel yn 1819 a hwyrach

fod yna rywrai yn yr ardal wedi dal yn ffyddlon iddo ar waethaf pob si. Ymhen ryw ddeuddeg mis yr oedd Jones yn ei fedd yn wr cymharol ieuanc.

Ychydig iawn a wyddom am hanes bore'r Bwlch ond sicr fod yma gynnydd amlwg wedi'i wneud oherwydd fe geir hen lyfr cyfrifon—Llyfr Tomos Saer fel y'i gelwid ac yno ceir enwau y rhai a addolai yma o 1839 hyd 1844. Ni wn i pa nifer a aeth o'r Llwyn gyda John Jones ond rhifai aelodau'r Bwlch yn 1839 gant a phedwar. Nid yw'r ardal yn boblog a cheir awgrym yn yr hen lyfr fod yr heresi wedi treiddio 'mhell oherwydd ynddo ceir enwau Cilgynlle, Blaencerdinfach, Nantypobdy, Cefncenarth a Dolivor y sydd filltiroedd lawer o'r Bwlch.

Er mai gweinidogion y Llwyn oedd yn gwasanaethu, fe geir yma enwau yr hen ffyddloniaid megis Arthur Williams, John Jeremy, Evan Lewis y Cilgwyn, T. Griffiths a Thomas Thomas, Castellnewydd Emlyn.

Nid yw o ddiddordeb i ddilyn yr hanes yn fanwl ond carwn gael y list o'r cant a phedwar. Fe geir y cyfan arall ond odid ar y memrwn yn y garreg sylfaen,—

" Capel-y-Fadfa :

" Adeiladwyd y Capel cyntaf yn 1813. Adgyweiriwyd yn 1850. Adnewyddwyd yn 1874. Dodwyd y maen hwn yn ei le gan Cadben William Davies, Rhydowenfach, Mehefin 21, 1905."

" Gwerthwyd tir y Fynwent hon, 1½ o aceri, i'r gynulleidfa gan John Thomas, Pantybryn yn 1876, am y swm o £30."

Y mae Capel-y-Fadfa bellach dros gant oed fel goleu ar fryn yn goleuo gwlad eang gan ei chyfeirio at safonau uwch a gwell, ac at grefydd symlach. Y mae i'r Bwlch ei hanes ei hun ac ychydig ohonom a sylweddola ein dyled i'r hen deuluoedd ffyddlon a fu'n arloesi'r ffordd a chadw cannwyll Duw yng nghynn am ganrif gyfan yma.

O.

CWYMPIAD Y DAIL.

Wedi haf a'i fwyn dyfiant,—dail y coed
Wyla'u cerdd mewn gwywiant ;
Ac oer hydref hwy grwydrant
I ofyn bedd mewn dwfn bant.

Gwilym Deudraeth.

Trem ar Bethau.

ODROI golwg frysiog yn ol dros ddalennau'r hen YMOFYNYDDION, yn enwedig rhifynau blynyddoedd cyntaf ei fod, diddorol iawn ydyw sylwi beth oedd y pynciau yr ymdrinid â hwynt. Undod Duw, Trindod, Duwdod Crist, Pechod gwreiddiol, Iawn dirprwyol, y Beibl, tragwyddol gosb : dyna rai o honynt. Oes y dadleuon diwinyddol oedd honno—dadleuon a nodweddid gan fesur mawr o angherddolder teimlad, o ddyfnder argyhoeddiad, ac o ddysg eang a chywir. Daw rhai o'r personau a gymerai ran ynddynt yn fyw iawn i'm cof—Owen Evans (Cefn) ; John Jones (Aberdâr) ; J. E. Jones (Penybont) ; John James (Gellionnen) ; Thomas Thomas (Pantydefaid a Chapelygroes), Gwilym Marles. Gellid, o chwilio, ychwanegu enwau eraill. Perthyn i'r un ysgol o feddwl a wnai'r personau a ennwyd, gyda'r eithriad o Wilym Marles ; perthynai ef i ysgol arall o feddwl ; a bu yntau hefyd yn ddadleuydd pybyr dros ei oleu newydd. Cewri oeddynt i gyd, a wnaeth wasanaeth amhrisiadwy yn eu dydd.

Diddorol i ni o'r genhedlaeth y sydd yn awr yn darllen eu cynhyrchion am reswm arall—yr amlygir inni ynddynt beth oedd Undodiaeth fel y'i hesbonid yn yr adegau hynny. Gelwid arnynt —gosodid rheidrwydd arnynt—i roddi cryn sylw i'r tynnu i lawr—i ymddangos yn y cymeriad o dorrwyr delwau. A gwnaent hynny, aml i dro, yn dra thrwsgl, gyda llymder iaith a swnia'n arw i ni heddiw.

Trindod—syniad afresymol ; Duwdod Crist—syniad gwrthun ; Pechod gwreiddiol—athrod ar gymeriad Duw fel awdur ein natur ; Iawn dirprwyol—syniad ag anghyfiawnder yn sylfaen iddo ; cosb diddiwedd—cabledd ar gymeriad Duw fel Tad ; Beibl anffaeledig—syniad na ellid, ar dir rheswm, rhoddi coel iddo.

Dyna un agwedd o'u gwaith, sef, y torri i lawr o syniadau a gyfrifent yn gyfeiliornus. Eithr ni chyfyngent eu sylw i'r agwedd negyddol ; ymdrinient â'r agwedd gadarnhaol hefyd—Duw yn un di-ranedig ; Iesu yn ddyn ; nid llwyr bechadurus mo natur dyn ; Iesu wedi dioddef, nid yn lle dyn, ond er ei fwyn ; cosb yn parhau, nid yn dragwyddol, ond cyhyd ag y pery'r angen am dani. Gwrthodid y syniadau a dybid yn gyfeiliornus am y rheswm na ddysgid mo honynt yn y Beibl ; a derbynnid y lleill am y rheswm y'u dysgid yn y Beibl. Yr oedd yr apel at y Beibl ,yn ol a dybient, yn derfyn ar bob dadl.

Y mae cryn amser wedi myned heibio er yr adeg honno, gan ddwyn gydag ef gyfnewidiadau mawr iawn. Un o'r cyfnewidiadau hyn ydyw—bod ymron pobun o'r pynciau yr arferid ymdrin â hwynt, bellach, wedi colli cryn fesur o'u diddordeb. Undod Duw, Trindod, Duwdod Crist : pwy sydd a fedr gyfrannu bywyd newydd i'r pynciau hyn ? neb ; o leiaf, gorchwyl anodd os nad amhosibl a fyddai. Duw—un person ynteu tri ? Ni fedd y fath ar ofyniad a hwn unmath—o leiaf, ond ychydig iawn—o ddiddordeb heddiw. Y mae gwybodaeth dyn am y cyfanfyd wedi eangu ei thiriogaeth gymaint fel y'n gorfodir i ail-feddwl a thrydydd-feddwl ein meddyliau am Dduw. Pwy a fedr ddyweyd beth yw Duw ? Neb. O geisio rhoddi disgrifiad neu ddarnodiad o Dduw fe'i darostyngir tu fewn i derfynau ; oblegid y mae'r meddwl dynol yn rhy wan i ffurfio unmath ar ddamcaniaeth deilwng o hono. Trindod : y mae'r syniad hwn fel y'i mynegir yng Nghredoau'r Eglwysi wedi syrthio i ddinodedd na fedr ymgodi o hono byth mwy. Duwdod Crist : syniad wedi'i ddyfrhau i lawr yw hwn hefyd—wedi'i ddyfrhau i lawer belled ag i'w amddifadu'n llwyr o'i ystyr gyntefig. Llwyr lygredd y natur ddynol, Iawn dirprwyol, tragwyddol gosb : y mae'r syniad o ddatblygiad wedi'u gyrru'n llwyr i'r cysgodau. Ac y mae dysg ddiweddar wedi gwneud hafog o'r Beibl fel llyfr anffaeledig.

Yn wyneb y sefyllfa newydd y cawn ein hunain ynddi, daw'r gofyniad " ble saif Undodiaeth ? " a ofynwyd yn erthygl eithriadol amserol a galluog gweinidog y Notais yn y rhifyn diweddaf adref atom gyda nerth apeliadol a'i gwna'n anodd iawn inni ei anwybyddu. Gellir rhoddi ffurf arall i'r gofyniad—fel hyn : Oes gan Undodiaeth ein dyddiau ni genadwri arbennig a wahaniaetha'n hanfodol oddiwrth genadwriaethau Eglwysi eraill ?

Dechreuaf ateb y gofyniad trwy ofyn un arall—beth yw crefydd ? Fy ateb (nid ateb cyflawn, mae'n wir, ond digon cyflawn i ateb fy niben yn awr) ydyw—mai ffordd o edrych ar bethau ydyw. Dyna beth yw pobmath ar grefydd—nid Cristionogaeth yn unig, ond pob crefydd : nid yw pobun o honynt amgen na ffordd o edrych ar bethau. Dyna beth yw pob adran o'r Eglwys Gristionogol. Beth yw'r Babaeth ? Ffordd o edrych ar bethau. Beth yw Protestaniaeth ? Ffordd o edrych ar bethau. Yr Eglwys Esgobol, yr enwadau Ymneilltuol ? Ffyrdd o edrych ar bethau ydynt i gyd. Dyna, yn fyr, beth yw Undodiaeth—ffordd (ffyrdd efallai) o edrych ar bethau, a ffordd llwyrgroes i bob ffordd arall ydyw. Ni raid ymhelaethu : y mae'r peth yn amlwg.

Beth, ynteu, am y ffordd Undodaidd ? Oes un ffordd o edrych ar bethau ag y mae'r gair Undodiaeth yn ddisgrifiad cywir o honi ?

Neu, a ellir rhoddi'r fath ar ddarnodiad o Undodiaeth ag y gall pobun a eilw'i hun yn Undodwr roddi ei enw wrthi fel arwydd o gydsyniad? Neu, oes cenadwri—cenadwri bendant, na ellir bod mewn dau feddwl parthed ei hystyr—y gall pob Undodwr a fynno wneud hynny ei dal i fyny yngwydd y byd a dweyd—dyma beth yw cenadwri Undodiaeth—dyma beth yw Undodiaeth.

O feddwl cryn dipyn am y peth, ymddengys i mi nad yw'r fath ar unfrydedd a hyn yn bosibl. Ac amhosibl ydyw am y rheswm ein bod wedi tyfu i'n safle bresennol mewn awyrgylch o ryddid. Rhyddid: trysor yw hwn a enillwyd inni trwy frwydrau celyd a dioddefiadau mawr iawn ar du ein tadau; a dylem, felly, ei anwylo uwch pob trysor. Gwir yw y gellir, yn hawdd iawn, gadael i'n rhyddid i ddirywio i ben-rhyddid: digwydd hyn yn aml iawn. Na ddoder y bai am hyn wrth ddrws rhyddid, eithr wrth ddrws difaterwch dyn. Safwn yn—glynwn wrth—ein rhyddid, doed a ddel, ac na'n dalier byth mwy dan iau caethiwed. Ond—sylwn beth yw'r canlyniadau o iawn arfer ein rhyddid. Un ydyw—yr amhosibilrwydd i ddynion a drig yn ei awyrgylch i edrych ar bethau yn *hollol* yn yr un goleu. Edrych un ar bethau mewn un goleu, edrych arall ar bethau mewn goleu gwahanol. Ymhellach, gwahanieithir yn y pwyslais—gesyd un y pwyslais ar un agwedd o'r hyn a ymddengys iddo ef yn wirionedd, arall ar agwedd arall. O arfer ein rhyddid, ni ellir gochel y ddau ganlyniad hyn.

Beth, ynteu, am Undodiaeth? I mi—*i mi*, sylwer; atebed pobun y gofyniad fel y dewiso—yr un yw Undodiaeth a Christionogaeth Iesu—Cristionogaeth Iesu, nid Cristionogaeth yn ol Paul neu Gristionogaeth yn ol yr Eglwysi fel y'i mynegir yn eu credoau; y mae gwahaniaeth mawr iawn rhwng y gwahanol fathau hyn ar Gristionogaeth. Beth, ynteu, yw Cristionogaeth Iesu? I mi—*i mi*, sylwer—dyma ydyw: Tadoldeb cyffredinol Duw; Brawdoldeb cyffredinol dyn; dyn wedi'i fwriadu i gynhyddu hyd at berffeithrwydd; cariad fel elfen lywodraethol bywyd yn ei berthynas â Duw ac â dyn; Duw yn cadw gafael dyn yn awenau'i lywodraeth fel "na theflir dim i ddamniol nyth pan ddygo Duw ei waith i ben." Dyna, i mi, beth yw Cristionogaeth Iesu. Dyna, i mi, beth yw'r genadwri Undodaidd i'n dydd ni. Oes ar undyn angen rhagor na hyn? I mi, llwyr ddigon ydyw.

Datganiad personol yw'r uchod, nad oes neb yn gyfrifol am dano ond yr awdur, ac na raid i neb gydsynio ag ef oni ddewiso. Dadleuir, weithiau, dros fwy o unfrydedd neu o unrhywiaeth yn y datganiadau amrywiol o'r genadwri Undodaidd. Anghofia'r cyfryw mai mudiad yw Undodiaeth i fod, ac nid peth i aros yn yr unfan. Tyr goleu newydd a gwell ar wirioneddau fel yr â amser

heibio : neu, os na ddigwydd hyn, golaler na chauer un drws rhag i oleu newydd gael derbyniad pan ddelo.

Mwy pwysig o lawer nag unfrydedd neu unrhywiaeth yn y datganiadau o'n cenadwri ydyw ffyddlondeb i'r goleu fel y'i hamlygir inni o ddydd i ddydd. Galwer y goleu wrth ba enw bynnag a fynner ; ni pherthyn i'r enw fawr iawn (os dim) o bwys. Yr un a fyddai arogl y rhosyn pe'i gelwid wrth ryw enw arall. Beth bynnag a fo'r goleu, wrth ba enw bynnag y'i hadnabyddir, y ddyletswydd bennaf ydyw bod cyn ffyddloned iddo nes dod o hono. inni, megis "fel hyn y dywed yr Arglwydd."

D.E.

Confessio Fidei.

GWAITH anodd, anodd yw mynegi a gred undyn ac ni ŵyr ond a geisio. O ddarllen y Beibl teimlaf fod yr awduron yn aml yn methu– methu oherwydd prinder geiriau neu ddiffyg gallu i fynegi a wyddent. Y mae'n anodd, yn wir y mae'n amhosibl mynegi y dyfnaf ynom. Darllenais yr erthygl "Ble saif Undodiaeth ?" a'r erthyglau Saesneg a oedd yn gefndir iddi. Nid wyf yn sier nad oes berigl i'r pulpud ac athrawon Crefydd heddiw o geisio bod yn rhydd fynd yn benrhydd a heb yn wybod iddynt eu hunain ddiystyru y pethau santaidd. Yr ym yr yr un mŵd heddiw a phan ddiolchid am beidio datguddio egwyddorion y deyrnas i'r doethion a'r deallus. Medr y dysgedig ym marn y byd fod heb wybod am bethau'r ysbryd. Dechreuais holi fy hunan er gweld a wyddwn gan hunio fy *Nghonfessio Fidei*—fy Nghyffes Ffydd.

I. Credaf yn Nuw.

Wedi dweyd hynyna peidied neb a gofyn imi esbonio Duw. Ni fedraf ond pwy a fedr ? Y mae'r cread yn rhy fawr i mi allu ei amgyffred a phyla fy meddwl o geisio synied amdano. Y mae yna sêr mor bell fel y cymer filoedd o flynyddoedd i'w golau gyrraedd ein byd bach ni. Rhyfeddaf, dyna i gyd. Eto y mae'n rhy anodd i mi ar nos serennog neu mewn lôn gul a blodau'r gwanwyn ar y cloddiau a'r adar yn canu ym mhob llwyn beidio credu fod yna *rywun* yn gofalu ond nid bywyd pob bywyd yn unig mo Duw. Ceisiaf ei ddarlunio fel personoliaeth os iawn mesur Duw a llinyn mesur dyn ond peidiweh gofyn i mi beth yw personoliaeth. Gwn a feddyliaf ond ofer ceisio ei fynegi. Trof i ryw Fethel llwyd

lle bu 'nheidiau yn gweddio a theimlaf ar ambell awr wen y gwn innau y llwybr tuag ato. Darllenaf fy Meibl a theimlaf fod y gyfrinach yng nghadw ynddo. Trof i'm calon fy hun a minnau yn yr ysbryd iawn a gwn fod Duw'n agos. Tu cefn i bob peth ac ym mhob peth fe welir Duw. Droion gynt ymdrechais fy ngorau heb feddwl am glod na thâl ond cawn wên a chusan fy mam. Sonir llawer am nefoedd ond ni wn ac ni ddisgwyliaf nefoedd. Eto gwn rywbeth am y profiad melys o geisio bodloni Duw. Cofiaf fel yr edrychwn ym myw llygad nhad heb amau na gofyn. Yr oedd cariad dwy galon yn ein clymu. Yr oem yn deall ein gilydd drwodd a thro. Plentyn mawr wyf eto ac edrychaf ym myw llygaid Duw. Ar ambell i funud wen teimlaf fy mod i a Duw yn deall ein gilydd.

Hawdd yw sôn amdano fel crewr a chynhaliwr bywyd ond gwn amdano fel gwrandawr gweddi. fel un a rydd nerth yn ol y dydd. fel ffrind calon ar y daith ac fel Tad. Ni fedraf mo'i esbonio i fodloni arall. Ni cheisiaf, ond arosaf yn unig o'i. flaen heb ofn na phryder. Credaf yn Nuw. Hyd y gwn i campwaith Duw yw dyn a rhaid casglu cymeriad Duw oddiwrth a welir yng nghymeriad y gorau y gwyddom amdano. Gwn am gariad dihunan fy nhad a mam ac er cymaint fy nghariad tuag atynt. y mae'n amhosibl peidio credu na cheir cariad felly yng nghalon Duw. Gwn am gyfeillgarwch rhywun a gred ynof a phawb arall wedi cefnu; am ofal yr aderyn am ei giwion neu'r fam am ei phlentyn; am drugaredd a thosturi tuhwnt i bob disgwyl. Mewn gair popeth da a phur a phrydferth a welais i ynghalon undyn—popeth a oedd yng nghalon fawr Iesu. dyna sydd yng nghalon Duw i mi ond ei bod yn anhraethol fwy. Gwn y sy yng nghalon tad a thrwy help calon tad ceisiaf ddeall calon Duw. Ni fedraf ei esbonio ond gŵyr fy nghalon a geisiaf ei fynegi. Credaf yn Nuw.

II. Credaf yn Iesu.

Addefaf na ddeallaf i mo'r sôn amdano fel ail berson yn y Drindod na'i genhedlu gan yr Ysbryd Glân. Eto hwyrach y medr arall. Nid apelia ataf fel Meseia yr Iddew na Logos athroniaeth Groeg. Dyn yw Iesu i mi wedi ei eni fel finnau drwy ffordd Duw a'r unig ffordd y gŵyr y byd amdani. Plentyn Joseff a Mair a thrueni fod chwedlau'r dwyrain chwedlau digon cyffredin mewn llawer gwlad wedi peri i ddyn gredu yr enedigaeth wyrthiol fel y'i gelwir neu roi *slur* megis ar fywyd Joseff a Mair. Ni chredaf i mo'r chwedlau amdano ond parchaf hwynt am eu bod yn awgrymu personoliaeth arbennig.

Credaf y medrai plant yr Ysgol Sir roi gwers iddo mewn gwyddor a buasai llawer hen bregethwr digon hen ffasiwn heb symud cam

er gadael y coleg yn ei ystyried yn uniongred ar gwestiwn beirniadaeth Feiblaidd. Buasai gwŷr y Bumed Frenhiniaeth a llu o'u disgynyddion heddiw yn gweiddi haleliwia o glywed ei farn am ei ail-ddyfodiad. Wedi dweyd hynyna dywedaf eto ei fod yn bersonoliaeth arbennig. I mi y mae Shakespeare ac eraill yn arbennig yn eu cylchoedd eu hunain. Yn myd Duw, fel dehonglwr y bywyd unwch, fel un a geisiodd fyw ei grefydd a dwyn Duw yn *real* i ddynoliaeth yr oedd Iesu'n arbennig y mwyaf arbennig o blant Duw. Yr oedd rhywbeth ynddo a blannai obaith yng nghalon publican a phechadur drwy ddangos mai Cariad yw allwedd y bywyd unwch. Yr oedd rhyw *fagnetism* yn ei bersonoliaeth i dynnu'r gorau—y dwytol i'r wyneb. Nid yw ei egwyddorion ond a wyddom y sy'n iawn yn ein munudau gwyn. Pair ambell athro i ni wneud yn well nag y meddyliodd neb ohonom y medrem. Felly gyda Iesu. Dyma enaid mawr a fedr beri i bob un ohonom fod yn fwy nag efe ei hun, ie, dyma gymeriad a bair i'r byd ddod i'w lwybrau ac i fesur a phwyso gwir werth wrth ei safonau ef. Ofer yw ceisio bychanu cymeriad gwr y sy'n moldio cymeriad dynoliaeth ar ei lun ac ar ei ddelw ei hun ddwy fil o flynyddoedd wedi ei tynd. Pentyrrodd yr eglwys bob rhinwedd gariadus arno nes gwneuthur Duw yn Dduw pell, oer a chyfiawn. Ofnai'r Eglwys Dduw a gwnaeth Iesu bob yn dipyn yn ogyfuwch a'r Tad. Dyna ei chamsyniad ac ni enillir dim ond collir y cymeriad prydferth. Iesu addfwyn a thyner, yr esiampl ddi-ail a fuasai'n galondid i bob un geisio ei helelychu. Wedi ei ymddihatru o bopeth y sy'n cuddio'r dyn ynddo ac wedi edrych i mewn i'w galon fawr gan geisio deall ei neges seml i'r byd dywedaf gyda pharch dibendraw iddo—Credaf yn Iesu!

III. Credaf mewn dyn.

Nid rhyw fod syrthiedig dan bechod gwreiddiol heb ddim ond cospedigaeth dragwyddol yn ei aros onibai am iawn Crist ar Galfaria mo dyn ond plentyn Duw yn prifio bennydd ac yn fwy heddiw nag erioed o'r blaen. Y mae olion remnants ei gyndeidiau pell ac anifeilaidd yn aros ynddo ond trwy'u cwrteithio fe ddaw yn debycach i ddyn ddydd ar ol dydd. Er pob cais i'w fychanu nes ei fod bron a cholli ffydd ynddo ei hun, y mae rhyw anfodlonrwydd yn ei galon. Y mae'n dyheu ac yn hiraethu am rywbeth y sydd o'i gyrraedd yr awron. Efe yw plentyn Duw a thragwyddoldeb yn ei feddiant a medr yng ngrym ei berthynas foesol ac ysbrydol a Duw droi ato a dweyd gyda Iesu—Ein Tad.

IV. Credaf yn y Beibl.

O ddarllen llyfr neu wrando pregeth fe ddywed rhywbeth ynof *It rings true*. Ni wn pam ond y mae felly. Felly gyda'r Beibl yn ei rannau

gorau. Casgliad cyfoethog o lenyddiaeth grefyddol ddigymar Israel ydyw a'i awduron wedi eu hysbrydoli yn yr un ystyr ag yr ysbrydolir pob dyn a draetho wirionedd. Nid oes gennyf gymaint parch i'r canon fel y'i gelwir oherwydd y votio cyn cael y llyfrau i gyd iddo. Cynnwys hufen llenyddiaeth cenedl yn ofni Duw yn fwy nag un genedl arall yr adeg honno. Ni chredaf bob iod a thipyn ohono. Y mae ynddo gamsyniadau a chroes ddywedyd. Cronigl ydyw o ddu a gwyn y natur ddynol ond y mae'n llyfr byw. Caiff dyn ynddo gyfarwyddiadau ar y daith a dangosir lle y cai eneidiau mawr eu nerth. Ni chredaf am foment fod yn rhaid imi dderbyn a chredu barn gwyr Duw yng nghenedl Israel gynt ond cynbelled ag y maent yn mynegi'r gorau ym marn olau dynoliaeth yr oesau. Nid yw hyd yn oed yn awdurdod i mi ym myd crefydd ond cydiaf ynddo ar deg a garw oherwydd ynddo ceir *anthology* o brofiadau eneidiau yn ymgripio at y golau wrth geisio rhodio gyda Duw. Darllenaf y Salmau a phenodau mawr yr Hen Destament. Trysoraf ar fy nghof y bregeth ar y mynydd a dywediadau Iesu a phrofiadau cyfoethocaf gwŷr Duw ac mewn ystyr uwch i'm tyb i dywedaf credaf yn y Beibl.

V. Credaf mewn Nefoedd ac Uffern.

Ofer sôn amdanynt fel dau le. Nid ynt ond dwy sefyllfa a dyn ei hun yn gyfrifol i raddau mwy neu lai am ei dynged. Nid ynt ond *scale of values*. Y mae tân uffern wedi diffodd wrth doddi telynau aur y Nef ond nid yw'r gosp wedi symud. Dywedir heddiw mai Cariad yw Duw a thybir nad oes nefoedd nac uffern. Nid ym wedi dechrau deall ystyr cariad na maddau. Nid gwaith rhwydd yw derbyn maddeuant o law Cariad o gofio i ni fradu yr un a ymddiriedai ynom. Nid wyf yn sier nad yw ein nefoedd a'n huffern yn ormod o *business transaction* ac y bydd raid i ni newid ein syniad am wobr a chosp o gofio mai bodloni Duw yw amcan pennaf dyn. Ni fedraf i ddychmygu uffern waeth na chwmni Duw i'r sawl a fyn ddilyn ei ewyllys fach ei hun a dyna fydd nefoedd y sawl a blyg ei ewyllys ei hun i ewyllys Duw.

VI. Credaf mewn Bywyd Tragwyddol.

Ofer sôn am angau a bedd. Nid ynt ond termau dacar—ofnau ac amheuon yr oesau gynt fel ysbrydion yr anwel yn tarfu hedd bywyd heddiw. Ni chredaf ychwaith fod bywyd tragwyddol o angenrheidrwydd yn golygu bywyd di-ddiwedd. Rhyw derm yw'r tragwyddol yn golygu gwerth ysbrydol o'i gymharu a gwerth amser. Medr dyn fyw y bywyd tragwyddol yma yn awr. Nid

yw marw ddim. Rhyw derm anghyffleus a chruglwyth o awgrymiadau di-sail wrth ei asgell, dyna i gyd! Ofer sôn am Dduw yn pennu amser a galw adref a rhyw *germ* bach yn medru gwneud y gwaith. Y mae bywyd i'w fyw ac od a bywyd i afael olwynion cylch eryfach fe'i dernir dernir y corff ond ni ddifethir mo'r bywyd. Ni wn ddigon am ysbrydegaeth i'w farnu. Dichon fod elfen o wirionedd ynddo. Gwyddom drwy delepathi nad yw'r meddwl ond rhyw *wireless set* yn dal negesau a phwy ŵyr nad yw ambell feddwl fel ambell *set* yn fwy *sensitive* na'i gilydd ac yn abl i ddal negesau Duw a byd yr ysbryd. Nid yw'n amhosibl o gwbl. Credaf yn ddibetrus fod yr enaid yn byw ac yn cadw ei hunigoliaeth,—

> "Hawdd fydd nabod hen wynebau
> Wedi croesi niwl y glyn."

Nid wyf yn sicr na chredaf mewn rhyw fath ar burdan oherwydd amhosibl gennyf gredu y genir pechadur yn sant wrth groesi'r afon. Rhyw brifio y mae dyn byw mwy a mwy o'r bywyd tragwyddol.

Nid yw adgyfodiad ond cais amrwd i gael dyn o'r bedd lle ni fu dyn erioed, ond dyna ddigon. Tybed y medrir cysoni fy naliadau i ag Undodiaeth heddiw? Ni wn. Nid oes gwahaniaeth gennyf ond gwn i mi yn fy ffordd fy hun geisio yn onest fynegi a gredaf. Medr y dysgedig ei darnio a'r cyfarwydd ym myd athroniaeth ei gwawdio. Ba waeth. Dyna fy "Nhgonfessio Fidei" i.

H.

Y Cyrddau Chwarterol.

CYNHALIWYD Cyrddau'r Hydref yng Nghapel-y-Groes, Mercher ac Iau, y 9fed a'r 10fed. Pregethwyd yn y gwahanol wasanaethau gan y Parchn. T. L. Jones, Notais; D. G. Rees, Gellionnen; H. H. C. Jones, B.A., Caerdydd; E. O. Jenkins, Llwyn; T. A. Thomas, Llandysul; a Dr. Griffiths, Aberystwyth. Arweiniwyd y gwasanaethau gan y Parchn. H. H. C. Jones, B.A., S. Evans Bowen, Alltyplaca a D. C. Evans, Rhydygwin. Bore Iau cynhaliwyd y Pwyllgor arferol pryd y daeth ynghyd gynrychiolaeth dda iawn o'r gwahanol Eglwysi. Dechreuwyd y gweithrediadau trwy ddarllen a gweddi gan y Llywydd, y Parch. J. Park Davies, M.A., B.D., Caerfyrddin; yna, cyn dechreu ar y rhaglen, traddododd anerchiad byr ond cynhwysfawr ac amserol iawn, a deilyngai wrandawiad cynulleidfa huosocach na'r un a'i clywodd, a da a fyddai ped ymddangosai yn yr YMOFYNNYDD.

Rhoddir hanes gweithrediadau'r Pwyllgor gan yr Ysgrifennydd—y Parch. E. O. Jenkins, Heblaw'r gweinidogion a enwyd gwelsom yn bresennol y Parchn. J. E. Jenkins, Ainsworth a J. Vaughan Pughe (B.), Cwrtnewydd. Caed Cyrddau llwyddiannus iawn —y cynulliadau yn foddhaol, y pregethwyr yn eu hwyliau goreu, y canu o safon uchel dan arweiniad Mr. Ewart Evans, Ffynnonfair, a chyfeiliad Miss Williams, Awelfryn, Alltyplaca.

PWYLLGOR YR HYDREF.

CYNHALIWYD hwn yng Nghapel-y-Groes fore Iau. Hydref 10, gyda'r Llywydd am y flwyddyn, y Prifathro Davies yn y gadair. Dechreuwyd ar waith y borau drwy i'r Llywydd arwain mewn darllen Salm a gweddi. Traddododd hefyd anerchiad byr ag y byddai'n dda gennym pe bai holl aelodau ein heglwysi yno i'w glywed. Darllenwyd cofnodion y Pwyllgor Blynyddol a derbyniwyd hwynt fel cofnodion cywir o'r hyn a basiwyd.

Cafwyd ar ddeall gan y Parch. T. Arthur Thomas ei fod wedi dechreu symud gyda'r gwaith o ddewis ymddiriedolwyr ar yr eiddo ym Mhenrhiw.

Rhoddwyd hawl i Mr. Thomas i ychwanegu un enw at y rhai awgrymwyd o'r blaen ar restr yr ymddiriedolwyr hyn. Pasiwyd fod y rheolau ynglyn a gweinyddu Trysorfa'r Mytyrwyr i'w cyfleithu i'r Saesneg gan Mri. W. S. Jones a E. O. Jenkins er budd Cymdeithas Eglwysi Morganwg.

Pasiwyd ein bod yn apelio'n daer at yr eglwysi sydd heb ddanfon casgliadau i fewn i Drysorydd Trysorfa'r Mytyrwyr ar iddynt wneud hynny'n ddioedi.

Ein Pulpudau gweigion. Cyfrifid hwn yn fater pwysig a phasiwyd fod Pwyllgor yn cael ei wneud i fyny o'r Gweinidogion ac un aelod o bob Eglwys i gyfarfod i ymdrin ag ef. Pasiwyd hefyd ein bod yn gofyn i Gymdeithas Eglwysi Morganwg i gydsymud a ni yn y peth hwn.

Bu cryn siarad ar gyflwr ein hysgolion Sul. Cytunwyd fod lle gan y mwyafrif o honynt i fod yn well a threfnwyd fod grym y borau ym Mhwyllgor y Pasc i'w roddi i'r mater hwn. Apelir am awgrymiadau ar sut i wella ein Hysgolion Sul ar dudalennau Yr Ymofynnydd rhwng hyn a'r Pasc.

Trefnwyd fod Cyfarfodydd y Pasc i'w cynnal yng Nghiliau Aeron.

E. O. Jenkins, *Ysgrifennydd.*

Change.

'DWN i ddim pam y gair Saesneg Change. Hwyrach fod a fynno'r ddrama *Change* a'r enw, hwyrach ei fod yn ateb y mŵd pwy ŵyr? Nid oes wahaniaeth. P'un ai Saesneg neu Gymraeg fe ŵyr dyn yr awgrym. Dyma air mawr hen ffilosoffyddion Groeg 'slawer dydd popeth yn cyfnewid - mynd a dod heb aros nac oedi. Fel hyn heddiw, fel arall yfory. Ni lif yr un afon dan y bont ddwywaith. Ni feddyliwn ninnau yr un meddyliau ond unwaith. Am y tro dyna fy ffilosoffi innau—*Change*. Dyna'r mŵd. Ni ellir mo'r help.

Ryw fythefnos yn ol eisteddwn ger y ffenestr—yr unig ffenestr yn y ty lle ni chlywir mwstwr y moduriau. Ni fedrwn ddarllain llyfr—yr oedd darllain mŵd natur yn well. Yr own mewn myfyr heb hwyl at ddim arall. Rhaid oedd gwrando a gwylio. Cofiwn glywed sôn am hen bregethwr a'i oedfa fawr. Pregethai mewn Bethel gwledig ar ddiwedydd mwll pan dorrodd storm dros yr ardal. Daliodd ar y storm am ffigyrau i oleuo'i bregeth mewn rhagor nag un ystyr. Disgrifiai wib y fellten a rhu'r daran ac ar y foment dyma'r hen gapel yn olau ac yn crynu ar ei sylfeini. Yr oedd yna floedd nwch na bloedd y gennad o'r pulpud. Aeth pawb yn fud. Tawodd y pregethwr gan ddwyn yr oedfa ddifrif ddwys i derfyn a'r geiriau,—

"Pan leferi di, O Dduw, gweddus yw i ni dewi."

Tebig y teimlwn innau y bore hwn. Yr oedd *change* yn dod dros wyneb y nefoedd. Ciliai'r glâs a'r heulwen. Duai: gwgai'r nef. Yr oedd unlliw y dur. Yr oedd yn nos—nos yn y bore. Nid oedd gân gan aderyn. Deellai ryw sut. Llonyddai, ie, peidiai'r awel a chware. Ni chrynai deilen ar bren. Yr oedd natur yn fud. Daliai'i hanadl mewn braw a dychryn. Nid oedd angen holi pam? Ymhen ennyd gwibiai'r mellt fel arian byw yn y pellter. Clywwn ddistaw ru'r daran. Yr oedd y gad wedi'i threfnu a'r lluoedd anweledig yn barod.

Ni wn i am ddarlun prydferthach nag eiddo'r Gwehydd Dwyfol yn gyrru'i wennol ar draws y nef gan wau ei edau aur drwy'r godre du nes llunio'i patrwm. Sôn am gyflymdra Waghorn yn y Schneider Race. Ni symudai ddim o'i gymharu a'r fellten.

Yr wyf wedi gwrando mewn Eglwys henafol ar rywun yn canu'r organ. Rhed ei fysedd trosti'n ysgafn ar y dechrau a hed ambell

gord drwy'r Eglwys ond bob yn tipyn fe gynhydda'r sŵn nes llanw'r Eglwys a miwsig pan gyrhaeddo'r climax. Felly yr oedd y bore hwn. Yr oedd pob *stop* yn organ fawr Natur wedi'u tynnu allan a'r Crewr ei hun ellid tybio yn ei chanu a'r byd yn gwrando. Ymhen ennyd nid gyrru'r wennol mohoni ond Duw wedi plygu'i fwa gan anelu'i saethau at yr hen ddaear. Yr oedd Duw fel pe bai wedi digio. Gafaelai rhyw allu cryf yn y ddaear gan ei hysgwyd fel yr ysgydwa ci lygoden. Yr oedd llid a dicter yn ei lais cras a chryg. Pistyllai'r glaw. Tybed fod llu'r nef yn wylo mewn cydymdeimlad a thrueni dyn. Meddyliwn am fy nghyndeidiau yn crynu mewn dychryn a braw rhag llygad yr Anweledig. Ofnadwy ond ardderchog o brydferth. Duw megis yn dangos ei allu er i ddyn weld mor eiddil yw. Y mae'n marchog ar nef y nefoedd : chwyth ei drwmp a phopeth byw a gryn.

Ymhen teirawr ciliodd y cymylau a gwenai'r haul. Yr oedd y saethau ynghadw gyda Duw. Distawodd y rhu. Troes y pistyllo dibaid yn fanlaw. Doi ambell nodyn o fiwsig o'r goedlan. Yr oedd natur a dyn yn barod i roi diolch am gael gweld Tatŵ Duw a'r llu nefol ar gant y nef. Dyma *Change* !

* * *

Gyda'r hwyr wedi gwaith y dydd euthum allan am dro. Nid oedd gennyf yr un amcan pendant mewn golwg nes cyfarfod a chyfaill. "Beth am game ?" meddai. Cyn pen pum munud yr oem yn bowlio. "Nid oes dim ynddi" meddech. Nac oes hwyrach ond cofiwch y mae gwahaniaeth rhwng bowlio a gwylio arall. O sefyll ar y banc a gweld y bêl yn mynd o chwith, tybiwch y caech *toucher* bob tro. Wedi gafael mewn pêl a bowlio eich hun y mae'r gân yn newid rywsut. Mor debig yw'r game i fywyd. Er amcanu'n dda ni chyrhaeddir y nod ond yr un yw—bod ar y *Jack* a chael *toucher*. Treuliasom awr hapus heb ofid na phryder. Anghofiasom y byd gyda'i ffwdan a'i flinder.

Ar y ffordd adref gwelsom drwp bach heb fod ymhell o dŷ yn siarad dan y llais. Nid oeddent ond llafurwyr ac eto gwyddwn fod rhyw esboniad ar ddistawrwydd y cwmni bach. Nid oedd angen aros na holi. Yr oedd arafu camre'n ddigon er cael gwybod—*rhywun* ar y ford dan law'r meddyg a chysgod byd arall ar y cwmni bach dyna i gyd. Fe ostwng pob un ei lais mewn cydymdeimlad heb yn wybod iddo. Felly ninnau. Wedi sisial gair neu ddau a mynd yn ein blaenau gan siarad am hyn ac arall fel wrth reddf codasom ein llygaid at ffenestr tŷ hen gyfaill a orweddai ar ei wely cystudd trwm. Nid oedd angen ond cip. Yr oedd y lleni drostynt yn siarad yn hyawdl-fud am angau a thragwyddoldeb.

Yr oem ni wedi cwpla'r *game*. Yr oedd yntau hefyd. Nid oedd tri chan llath gennym i'w droedio ond mor wahanol y mŵd wrth fowlio a gwylio erchwyn gwely angau. Dyna *change*!

* * *

Wedi troi adref, cydiais mewn swp o hen YMOFYNNYDDION. Y mae hen YMOFYNNYDD yn *donic* i mi. Cofiaf yn dda am bregethwr hen gyfaill i mi a'i lond o hiwmor diniwed. Yr oedd yn frawdol ac nid oedd gyrddau gan un enwad na throi iddynt ryw ben o'r dydd. O'i weld felly'n bresennol bob amser, gofynnodd *rhywun* iddo, "Pam yr yeh yn mynd i bob cwrdd yn y dre." "Mi ddweda i wrthoch chwi," meddai yntau a gwên ar ei wyneb. "Y mae'n gysur i mi wybod fod rhywrai yn pregethu'n wael heb law fi fy hunan." Felly yr wyf innau. Pan gwynir fod ambell i YMOFYNNYDD yn syrthio'n fyr, cydiaf mewn hen YMOFYNNYDD ac y mae'n *donic* i mi wybod y medrai y cedyrn 'slawer dydd ysgrifennu erthyglau digon main. Nid yw hynyna ond gyda llaw.

Yn yr hen YMOFYNYDDION te geid erthyglau dysgedig ar bwynt o ramadeg neu ddychmygion Hywel Morgannwg. Ceid pregethau'r hen gedyrn ac esboniadau ar adnodau tywyll. Yr oeddent yn ddiddorol. Prynais sypyn o hen YMOFYNYDDION pwy ddydd. Yr oedd y perchennog yn wr blaenllaw mewn capeli ac eto yr oedd dail y traethodau dysgedig a'r bregeth heb eu torri ganddo. Hwyrach mai digwyddiad ydoedd hob tro. Nid wyf am amau. Flynyddoedd yn ol bellach darllenais ystoriau Sherlock Holmes a chredwn na ysgrifennwyd dim mwy diddorol i mi. Pwy ddydd fe'i darllenais eilwaith ac addefaf fod rhywbeth yn *fflat* ynddynt.

Gwyr y darllenwyr fod yr "Outline" papur bach a fwriedid gogyfer a'r elfen ryddfrydig yn Eglwys Loegr wedi marw ond y mae'r *Tit-Bits* a phapurau cyffelyb yn byw.

Awgrymir yn garedig a thêg, os nad wyf yn methu mewn erthygl yn y rhifyn diweddaf fod stamp yr enwad ar erthyglau'r hen YMOFYNYDDION ond nad yw felly mwy. Fe osodais i stamp yr enwad ar y clawr—ond nid yw y *correspondent* a ysgrifenna amlaf iddo yn credu nemor mewn erthyglau diwinyddol ond y mae'n rhydd a chroeso calon i'r neb a fedr roi bywyd mewn diwinyddiaeth heddiw i draethu ei farn. Cynbelled ag yr wyf i yn deall *trend* pethau, y mae'r genedl wedi blino ar ddadleuon diwinyddol a thrueni ydyw gweld enwadau ac eglwysi yn ceisio clwto'r clawdd ffin y sydd bron yn gydwastad a'r llawr. Cre'laf y buasai'n iechyd i galon ac enaid y genedl pe medrai anghofio gwahaniaethau 'slawer dydd ac ailuno pe bai ddim ond er cael rhwygo ar faterion y sydd o bwys ym mywyd y genedl heddiw.

Pe ceid rhwyg felly, nid ar hyd yr hen linellau y rhwygid mwy. Nid wyf yn sicr y buasai yr un rhai yn perthyn i'r un gorlan. Fe fuasai pob un cyn onested a'i gilydd ond ac pob un i'r fan lle y teimlai'n fwyaf cartrefol gyda'r Arglwydd. Nid wyf yn sicr na charwn i brydferthwch gwasanaeth y Catholig—y ffenestri yn llawn darluniau apostolion a gwŷr Duw ynghyd a'r prydferth ar y mur ac yn y miwsig ond imi ei gael heb gaethiwo'r meddwl na llyffetheirio'r deall. Paham na cheid gwahanol farnau i'r un pulpud ?

Nid un *phase* sydd i'r gwirionedd ac nid oes raid pryderu yn ei gylch. Ar ol hyn hwyrach ni adewir i *heretic* olygu cylchgrawn enwad. Beth bynnag am hyn y mae'n *awr farwaidd* ar grefydd. Y mae eisiau *Change* ymhob cylch. Nid oes raid pryderu oherwydd beth bynnag y change fe geir dyn yn chwilio am Dduw yn unol a rhyw hiraeth y sy'n ei galon ac ni fodlonir mohono beth bynnag a wna ond mewn cymundeb a'r Anweledig.

N. N.

Priodasau.

Ar y 5ed o Hydref, yng Nghapelygroes, gan y Parchn. D. Evans a J. E. Jenkins (Ainsworth), ewyrth y briodasferch, unwyd mewn priodas Mr. Stephen Jones, o'r Lôn, ger Alltyplaca, a Miss Mary Jane Jenkins, Blaenwaun-uchaf. Y Cofrestrydd—Mr. Enoch Davies, Llaubedr. Eiddunwn bob llwyddiant a dedwyddweh i'r ddeuddyn.

Dydd Mercher, Hydref 9fed, yn Eglwys y Plwyf, Farnborough ; o flaen y Cofrestrydd ac Offeiriad yr Eglwys, priodwyd Miss Ceridwen Cope, Ohio Stores, Trebanos, a Mr. Benjamin Evans, Homeland, Victoria Road, Farnborough.

Marwgofion.

Ar y 17eg o Fedi, bu farw Margaret Jones, Capel Uchaf, ger Nantgaredig, yn 89 oed. Merch ydoedd i'r diweddar Griffith Jones a'i briod, o'r Frowen, Pencarreg. Treuliodd y rhan fwyaf o'i hoes yng nghymdogaeth Talyllychau—ym Mlaenewmrofel a Maerdy-isaf. Bu iddi ddau o wyr—dau frawd—a buont feirw yn ifanc, gan adael nifer luosog o blant tan ei gofal. Dug hwynt i fyny'n anrhydeddus, ac y maent i gyd mewn sefyllfaoedd cysurus. Ar briodas ei mab hynaf, ymneilltuodd o'r fferm, ac aeth i fyw at ei merch i'r lle a ennwyd, ac yno y bu farw. O deulu Frowen (naw o blant) nid oes yn fyw yn awr ond dau—Griffith Jones, Brynmanalog, a Mrs. Thomas, Pantnewydd, Pencarreg. Bu'n aelod yng Nghapelygroes pan oedd ieuanc, tan weinidogaeth y Parch. Thomas Thomas, a bu'n ddarllenydd cyson o'r Ymofynnydd ymron hyd ddiwedd ei hoes. Bu iddi saith o blant, ac yr oeddynt i gyd yn ei hangladd, ag eithrio un ferch a'i rhagflaenodd. Claddwyd ei gweddillion ym myn-

went Capel-y-Groes y Sadwrn dilynol. Yn y ty cyn cychwyn, gwasanaethwyd gan y Parchn. D. Evans, Manordeilo, a Churwen Davies, Siloam; yn y Capel gan y Parchn. Ehedydd Jones, Pumpsaint; Isaac Davies, Nantgaredig (ei gweinidog); J. D. Evans, Talley a D. Evans, Capel-y-Groes; ar lan y bedd, y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr. Yn ei anerchiad dug ei gweinidog dystiolaeth uchel iddi fel benyw o gymeriad Cristnogol uchel. Daeth nifer luosog iawn o berthynasau ynghyd i'r Capel i dalu iddi eu cymwynas olaf.

Blin iawn gennym gofnodi marwolaeth y brawd John David Phillips, 66, Mill Street, Trecynon, yn 36 oed. Bu farw dydd Mawrth, Hydref 8, 1929. Bu yn nychu am rai misoedd, ond yr oeddym yn gobeithio y byddai'n gwella, oherwydd yr oeddwn wedi ei weled yn glaf o'r blaen, ond erbyn Sul, Hydref 6, gwelwyd arwyddion eglur fod y diwedd yn agoshau. Dioddefodd boenau mawr yr wythnosau diwethaf a hynny'n siriol ac yn amyneddgar dros ben. Yr oedd yn gyfaill trwyadl ac yn aelod ffyddlon o'r Hen Dy Cwrdd. Nid oedd neb yn barotach nag ef i wneud cymwynas a gallesid bob amser fod yn sier o'i help tuag at unrhyw achos dyngarol a chymdeithasol. Bu'r angladd ar y dydd Gwener, Hydref 11eg, a chladdwyd yn y fynwent gyhoeddus, pan ddaeth torf ynghyd a gwelwyd arwyddion o gydymdeimlad a galar ar bob llaw. Gedy weddw ac un mab bychan ar ei ol, ac estynnwn iddynt ein cydymdeimlad dwysaf yn eu hiraeth a'u gofid. Yr un modd i'w fam, ei frawd a'i chwiorydd, y rhai fu'n gweini arno gyda thynerwch diffael. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. Harris, Bethel (A.), a'r Parch. E. R. Dennis.

Hydref 17, yn gymharol annisgwyliadwy, Mary Jones, Tanpond, Tyngrug, Llanwenog, yn 78 oed. Merch ydoedd i'r diweddar David ac Elizabeth Jones, Gwardafolog, ac adnabyddid ei thad yn gyffredin wrth yr enw "Saer Gwardafolog." Treuliodd ran fawr o'i bywyd gyda'i brawd yng nghyfraith a'i chwaer—John a Hannah Davies, yn Gwardafolog, Pontshaen, ac wedi marw John Davies, daliodd hi a'i chwaer i gyd-fyw ac ers tua dwy flynedd trigent yn Tanpond. Benyw ddiddrwg, dawel ydoedd a thueddol i fod yn swil gyda dieithriaid, ond unwaith y torrai drwyddi yr oedd yn siaradus iawn a'i chôf yn dda a hynod gywir. Eithriad fyddai ei gweld oddicartref—carai'r aelwyd yn ormodol i hyny a'i phrif bleser oedd gwau hosanau. Gyda'r gweill a'r hosan yn ei llaw a chwmni i ddal ymgom yr oedd yn hollol ddedwydd. Rhyw dalp o ddiniweidrwydd oedd ac i'w chyfeillion yr oedd yn rhyfeddol o serchog. Gadawodd mewn galar ei chwaer a nifer luosog o neiaint. Claddwyd yr hyn oedd farwol o honi y Llun dilynol ym Mwlchyfadfa pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins a'r Parch. S. E. Bowen.

Iau, Hydref 17, yn 61 mlwydd oed, Maria, annwyl briod Edward Bevan, Llysllwyne, Trebanos. Cyfforwyd ein hardal fach, pan ddaeth y newydd sydyn a thrist am farwolaeth ein hannwyl chwaer. Boreu neu ddau'n flaenorol cyfarfum a hi naill y llall gyda gair a gwên,—megis heulwen y dwthwn hwnnw. Yr oedd hi'n wastad o duedd hawddgar ac o dymheredd foesgar i bawb. Y mae yna ambell i beth ym mywyd y naill a'r llall o honom y gallwn fforddio ei anghofio'n llwyr; ond erys rhinwedd ym mywyd yr ymadawedig,—mwynder. Mae hwn megis blodyn ar ei ben ei hun, ac yn un o nerthoedd cryfaf bywyd. Tynner allan fwynder o fywyd y byd, beth fyddai ar ol? Barnwyd i wrthddrych ein llith farw mewn llewyg ar ei gwely wrth ymbaratoi i godi y bore hwnnw. Cydymdeimlir a'r teulu yn ei drallod a'i alar. Arhosed nawdd y nef rhwng y muriau lle y gweinyddodd hi ei goreu i bob un. Gedy ar ei hol ddwy ferch,—un yn Nhrebanos a'r llall yn Llundain. Claddwyd ar yr 21ain cyfisol yng nghladdfa Capel Cwmllynfell, dan weinyddiaeth y Parch. D. G. Rees, Trebanos.

Adran yr Ysgol Sul.

MAES LLAFUR am 1929—1930.

Safon I. (I rai dan **10** oed).

(i) Darllen Cymraeg o unrhyw lyfr cyfaddas i blant.
(ii) Dysgu'r Emyn : "Gweddi Plentyn" ar y cof. Gwel Perlau Moliant, Rhif **469**.

Safon II. (I rai dan **13** oed).

Hanes Samuel : gwel llyfr y Parch. D. J. Evans, B.A., B.D., ar Brif Gymeriadau'r Hen Destament.

Safon III. (I rai dan **15** oed).

Darllen Penodau XII—XIV yn Epistol I. Corinthiaid, a dysgu ysgrifennu Pennod XIII o'r cof. Ateb cwestiynau syml ar ystyron geiriau ac ymadroddion yn y maes.

Safon IV. (I rai dros **15** oed).

Gwaith Safon III., ynghyd a darllen yr Ail Bennod o Lyfr yr Actau, ac ateb cwestiynau syml arni.

Nodiadau—

1.—Dydd yr Arholiad—Sadwrn olaf ym mis Mawrth, **1930**.

2.—Arholwr : Y Prifathro y Parch. J. Park Davies, M.A., B.D., Caerfyrddin.

3.—Gall unrhyw blentyn, os bydd yn dewis, eistedd yr Arholiad yn Safonau II. a'r III., ar lafar. ond os am fathodyn a gwobrau eraill yr Arholiad, yr Ysgrifenedig yn unig a gyfrif.

4.—Bydd y Trysorydd yn ddiolchgar am y cyfraniadau arferol oddi wrth yr Ysgolion Sul nad ydynt eto wedi gwneud, os y gwelwch yn dda.

D. Conwil Evans, (*Ysgrifennydd*).

D.S.—Mewn llaw : Erthygl "Hedd" (diddorol a derbyniol) ; Tôn "St. Florence," a "Nodion yr Eglwysi."

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

JOHN E. JONES

(CERTIFICATED).

Jeweller, Silversmith and Optician

1, Wind Street, Llandyssul.

A FINE SELECTION OF ARTISTIC EYE-WEAR.
ENGAGEMENT AND WEDDING RINGS.
AGENT FOR "HIS MASTER'S VOICE" AND ALL LEADING MAKES OF GRAMOPHONES.

OPTICAL DEPARTMENT UNDER THE DIRECTION OF

CECIL JONES, F.S.M.C., F.B.O.A., F.I.O. (London).

:: Bradford House, Llandyssul ::

FOR WINTER GARMENTS.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.

OS AM——

ARGRAFFU

Adroddiadau Blynyddol . . . . . .
Llyfrau—o unrhyw faint . . . . . .
Rhaglenni Cymanfa Ganu . . . . .
Amlenni at y Weinidogaeth. . . . .
Mur-lenni Cyfarfodydd, &c., &c. . .
Neu unrhyw fath o Argraffwaith—

Wedi eu gwneud gyda'r
Peiriannau diweddaraf

— AM BRISIAU RHESYMOL —

GYRRER ARCHEBION AT ARGRAFFWYR
"YR YMOFYNNYDD."

Y CYFEIRIAD YW—

J. D. LEWIS,

Argraffwyr : Gwasg Gomer,

LLANDYSUL.